Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

08442 64 06 70
08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sgwar Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

| | |
|---|---|
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales |
| Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau | Economy, Infrastructure and Skills Committee |
| Blaenoriaethau ar gyfer Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau | Priorities for the Economy, Infrastructure and Skills Committee |
| EIS 35 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | EIS 35 Older People's Commissioner for Wales |

1 Medi 2016

**Par: Blaenoriaethau ar gyfer Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn[1]. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn eang ac mae'r holl faterion yn effeithio ar bobl hŷn drwy Gymru, ond tynnaf eich sylw at y materion penodol hyn i chi eu hystyried:

**Darpariaeth cludiant cyhoeddus ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru**

Mae'r gostyngiad mewn cyllid i wasanaethau cyhoeddus rheng flaen yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cael effaith enfawr ar allu pobl hŷn i deithio o gwmpas a gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt [2] [3]. Mae nifer y gwasanaethau bysiau cyhoeddus wedi gostwng drwy Gymru, ac mae hyn wedi cael effaith niweidiol a dinistriol ar fywydau pobl hŷn, mewn ardaloedd trefol a gwledig. Hefyd, mae gallu pobl hŷn i ddefnyddio dulliau cludiant eraill e.e. trenau wedi ei effeithio gan fod llai o wasanaethau bysiau sy'n mynd yn ôl a blaen i orsafoedd trefnau.

[1] http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=217
[2] http://www.bettertransport.org.uk/sites/default/files/research-files/buses-in-crisis-2015.pdf
[3] http://www.olderpeoplewales.com/wl/news/news/14-02-5/The_Importance_and_Impact_of_Community_Services_within_Wales.aspx#.V8boF2f6toJ

Iechyd ar Waith
Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Mae effaith gronnus y newidiadau hyn yn golygu nad yw pobl hŷn yn gallu ymweld â ffrindiau neu deulu, cael mynediad i wasanaethau ac amwynderau allweddol, a mynd i'r feddygfa/ysbyty. Mae gallu pobl hŷn i gyfrannu at economïau a chymunedau lleol wedi lleihau oherwydd y gostyngiad yn lefel cludiant cyhoeddus. Mae gan gludiant cyhoeddus rôl enfawr i'w chwarae mewn cynnal iechyd, annibyniaeth a lles pobl hŷn, ac mae sicrhau bod pobl hŷn yn weithgar yn eu cymunedau yn llesol i'r unigolyn (yn lleihau'r angen am becynnau iechyd a gofal cymdeithasol statudol), yn dda i'r gymuned (gwell cyfleoedd i bobl o bob oed ryngweithio'n gymdeithasol), ac yn dda i'r economi (bod pobl hŷn yn gallu gwario mewn busnesau lleol a gweithio neu wirfoddoli). Mae cludiant cyhoeddus yn hollbwysig i ddatblygu fy null sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ac yn seiliedig ar asedau i bobl hŷn, a hefyd mae'n cyfrannu tuag at Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Tra bod cyflwyno'r cynllun teithio ar fysiau am ddim yn 2002 wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl hŷn drwy Gymru, dim ond pan fo gwasanaeth bws ar gael y mae tocyn yn ddefnyddiol. Beth yw'r sefyllfa bresennol o ran cludiant cyhoeddus yng Nghymru i bobl hŷn ac eraill? Oes yna gefnogaeth ddigonol i gynlluniau cludiant cymunedol, er enghraifft, er mwyn 'llenwi'r bylchau'? Beth yw'r rhwystrau a beth ellir ei wneud i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu parhau i fod yn ased i gymdeithas? Sut y gall Cymru helpu i sicrhau bod cludiant cyhoeddus yng Nghymru'n ystyriol o oed a dementia, fel sy'n cael ei hyrwyddo yn rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru[4]? Ac yn olaf, beth yw'r sefyllfa bresennol o ran ymrwymiad Strategaeth Pobl Hŷn Cam Tri gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael mynediad i gludiant fforddiadwy a phriodol sy'n eu helpu i chwarae rhan lawn mewn bywyd teuluol, cymdeithasol a chymunedol [5]?

## Darparu hyfforddiant sgiliau ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru

Gan adeiladu ar Ymchwiliad i Gyfleoedd Cyflogaeth ar gyfer Pobl dros 50 oed[6], prif rwystr i nifer o bobl hŷn sy'n ystyried parhau yn y gweithle neu gael ail-fynediad iddo, yw sgiliau cyfyngedig neu sgiliau sydd angen eu diweddaru. Yn dilyn yr Ymchwiliad, mae Llywodraeth Cymru wedi

[4] http://www.ageingwellinwales.com/wl/home
[5] http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/strategies/older/?skip=1&lang=cy
[6] http://senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=11339

comisiynu ymchwil i edrych ar lefel y gwahanaiethau canfyddedig neu wirioneddol ar sail oed o safbwynt sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth. Croesewir yr ymchwil hwn, ac er bod Llywodraeth Cymru wedi datgan bod anghenion sgiliau pobl hŷn yn cael sylw mewn cynlluniau/rhaglenni ehanagch,  gallai'r Ymchwiliad dilynnol hwn ystyried a oes angen strategaeth sgiliau benodol ar gyfer pobl dros 50 oed ar Lywodraeth Cymru, fel yr amlinellir yn ei Strategaeth Pobl Hŷn Cam Tri.

I rai pobl, mae parhau yn y gweithle'n ffordd o ddal ati i fod yn weithgar a chael eu cynnwys yn gymdeithasol, tra bod gweithio wrth fynd yn hŷn yn hanfodol i eraill er mwyn ychwanegu at incwm a delio â'r cynnydd mewn costau byw. Amcangyfrifir bod 205,000 o bobl hŷn (50-64) yn NEETs (nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ) yng Nghymru ac mae sicrhau bod gan bobl hŷn y setiau sgiliau priodol yn dda i'r unigolyn, i'r cyflogwyr a'r economi[7].

Beth yw'r setiau sgiliau arbennig sydd eu hangen ar bobl hŷn i barhau yn y gweithle neu gael ail-fynediad iddo? Ydi pobl hŷn yn ymwybodol o'r cyfleoedd i gael hyfforddiant sgiliau ac a ydyn nhw'n yn gallu cael mynediad atynt? Ydi sefydliadau addysg uwch a phellach yng Nghymru'n annog pobl hŷn i gymryd rhan a chael mynediad i'w cynlluniau/rhaglenni dysgu a sgiliau? Beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod nifer cynyddol o bobl hŷn yn manteisio ar gyfleoedd prentisiaeth? Ydi cyflogwyr yng Nghymru'n cael eu hannog i gyflogi gweithlu sy'n amrywio o ran oed/ cenedlaethau, a beth ellir ei wneud i gynyddu nifer y gweithleodd sy'n ystyriol o oed a dementia yng Nghymru? Yn olaf, a fyddai datganoli rhaglenni sgiliau'r Adran Gwaith a Phensiynau i Gymru'n golygu darpariaeth well a chynyddol i bobl hŷn sy'n ystyried dal ati i weithio neu fynd yn ôl i fyd gwaith?

Gobeithio y bydd y materion hyn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i'r Pwyllgor. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi ac eraill ar y materion hyn yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch mae croeso i chi gysylltu â mi.

Cofion gorau

[7]http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Consultation_Responses_151006/September_2015_NAfW_Employment_opportunities_for_people_over_50.sflb.ashx



**Sarah Rochira**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTO IN PEOP